Y Sŵn yn yr Ardd gan Anni Llŷn

The Sound in the Garden

1. Roedd hi'n ddiwrnod braf o wanwyn ym Myd Cyw. Roedd Cyw a'i ffrindiau yn yr ardd yn chwarae. Yn sydyn, clywon nhw sŵn rhyfedd.

2. Gwrandawodd pawb yn astud. Roedd yn swnio fel rhywbeth yn torri neu'n cracio. Dyna ryfedd, meddyliodd pawb.

3. Clywodd Jangl sŵn yn dod o'r can dŵr. Rhoddodd ei phen i mewn i weld beth oedd yno. Nid sŵn cracio oedd i'w glywed ond sŵn 'bzzzzz...'!

4. Roedd gwenynen fach yn y can dŵr. Dychrynodd y wenynen wrth weld pen Jangl a hedfanodd yn gyflym drwy big y can dŵr.

5. Aeth Triog i wrando wrth y potiau blodau gwag. Nid sŵn cracio oedd i'w glywed, ond sŵn adenydd bach. Pili-pala oedd yno, yn chwilio am flodau.

6. Clywodd Plwmp y sŵn cracio eto, ond cyn iddo fynd i chwilio, clywodd Jangl yn gweiddi, "Help!"

7. Roedd pen Jangl yn sownd yn y can dŵr! Rhedodd Plwmp a Triog ati.

8. Clymodd Plwmp ei drwnc am gynffon Jangl a thynnodd Triog ar y can dŵr.
"1, 2, 3... tynnu!" galwodd Triog.

9. Daeth pen Jangl yn rhydd a chwympodd pawb i'r llawr.
"Diolch yn fawr, ffrindiau!" meddai Jangl.

10. Wrth godi ar eu traed, clywodd y tri'r sŵn cracio eto. "Mae'n dod o'r llwyn!" meddai Jangl.

11. Daeth Cyw, Llew, Bolgi a Deryn draw. Wrth edrych yn ofalus fe welson nhw wy!

12. Roedd yr wy yn cracio ac yn torri, a beth ddaeth i'r golwg ond cyw bach, melyn. Dyna'r sŵn! Sŵn plisgyn yr wy yn cracio ac yn torri. Gwenodd pawb wrth weld rhyfeddod bach y gwanwyn!

1. It was a lovely spring day in Cyw's world. Cyw and her friends were playing in the garden. Suddenly, they heard a strange noise.

2. Everyone listened carefully. It sounded like something breaking or cracking. How strange, they all thought.

3. Jangl heard a sound coming from the watering can. She put her head inside to see what was there. It wasn't a cracking sound they could hear, but a buzzing sound — "bzzzzz..."!

4. A little bee was in the watering can. The bee got frightened when she saw Jangl's head and quickly flew out through the spout of the can.

5. Triog went to listen beside the empty flowerpots. It wasn't a cracking sound they could hear, but the fluttering of small wings. A butterfly was there, looking for flowers.

6. Plwmp heard the cracking sound again, but before he could go to look, he heard Jangl shouting, "Help!"

7. Jangl's head was stuck in the watering can! Plwmp and Triog ran to her.

8. Plwmp wrapped his trunk around Jangl's tail and Triog pulled on the watering can.
"One, two, three... pull!" called Triog.

9. Jangl's head came free and they all fell to the ground.
"Thank you very much, friends!" said Jangl.

10. As they stood up, the three of them heard the cracking sound again. "It's coming from the bush!" said Jangl.

11. Cyw, Llew, Bolgi, and Deryn came over. Looking carefully, they saw an egg!

12. The egg was cracking and breaking, and they could see a tiny, yellow chick. That was the sound! The sound of the eggshell cracking and breaking. Everyone smiled as they watched the little wonder of spring!